IS-DDEDDFWRIAETH

# 2020 Rhif Cy. 20 -13

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol (Gweinyddu) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym* | *6 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 30(5) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol (Gweinyddu) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 6 Ebrill 2020.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Felindre(**2**).

### Gweinyddu'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol

**2.** Rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre arfer holl swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â gweinyddu'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer Cyffredinol, a sefydlwyd gan reoliad 3 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cynllun Atebolrwyddau Presennol ar gyfer Ymarfer

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Felindre o dan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838) (fel y'i diwygiwyd).

Cyffredinol) (Cymru) 2020(**1**), gydag effaith o 6 Ebrill 2020.



Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Gofal Sylfaenol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 27 Mawrth 2020

(**1**) O.S. 2020/263 (Cy. 62).